Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad
# Lefel y dilyniant: gwelliant sylweddol

**Ysgol Uwchradd Dinbych**
**Ffordd Rhuthun**
**Dinbych**
**Sir Ddinbych**
**LL16 3EX**

**Dyddiad yr ymweliad: Mehefin 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Rhian Wyn Griffiths | Arolygydd Cofnodol |
| Ray Owen | Arolygydd Tîm |
| Denise Wade | Arolygydd Tîm |
| Ceri Jones | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Bernir bod Ysgol Uwchradd Dinbych wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Mai 2012.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4, yn enwedig mewn Saesneg a mathemateg

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cyson wrth godi safonau yng nghyfnod allweddol 4, yn enwedig mewn Saesneg a mathemateg.

Yn 2012, yng nghyfnod allweddol 4, roedd perfformiad disgyblion mewn llawer o ddangosyddion yn uwch o gymharu â'r safonau a gyflawnwyd ganddynt yn 2011. Cynyddodd cyfran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, o bron i ddeg pwynt canran o gymharu â pherfformiad yn 2011. Mae'r perfformiad hwn yn cyd-fynd yn fras â disgwyliadau wedi'u modelu erbyn hyn. Bu gwelliant o bron i ugain pwynt canran yng nghyfran y disgyblion a enillodd gymhwyster lefel 2 mewn Saesneg, o gymharu â pherfformiad yn 2011. Roedd hyn yn golygu bod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Bu gwelliant o bron i wyth pwynt canran ym mherfformiad disgyblion ar lefel 2 mewn mathemateg o gymharu â pherfformiad yn 2011. Roedd hyn yn cyd-fynd yn fras â'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ond yn golygu bod yr ysgol yn yr hanner gwaelod o ysgolion ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o drwch blewyn. Mewn gwyddoniaeth, bu gostyngiad o bron i wyth pwynt canran yng nghyfran y disgyblion sy'n ennill cymhwyster lefel 2 o gymharu â pherfformiad yn 2011. Roedd hyn yn golygu bod yr ysgol yn y chwarter isaf o ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Er bod perfformiad disgyblion yn nangosydd pwnc craidd lefel 2 gyda'i gilydd wedi gwella rhywfaint o gymharu â pherfformiad yn 2011, roedd hyn hefyd yn golygu bod yr ysgol yn y chwarter isaf o ysgolion tebyg. Bu gwelliant ym mherfformiad disgyblion yn nhrothwy lefel 1 o gymharu â pherfformiad yn 2011 ac, er ei fod yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion, roedd y perfformiad hwn uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

I helpu i godi safonau yng nghyfnod allweddol 4, yn enwedig mewn Saesneg a mathemateg, mae'r ysgol wedi dechrau ystod eang o weithgareddau. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno rhaglen gynhwysfawr o gymorth ac adolygu, wedi'i theilwra'n effeithiol i fodloni anghenion gwahanol grwpiau o ddisgyblion. Mae'r ysgol wedi mabwysiadu dull mwy systematig a thrylwyr o osod targedau, olrhain cynnydd a gweithredu'n gyflymach i fynd i'r afael â thangyflawni hefyd. Pan fo arweinwyr yn nodi tanberfformio, eir ati i herio hyn, a rhoddir cymorth priodol i helpu disgyblion i wella eu perfformiad.

Yn 2013, yng nghyfnod allweddol 4, mae data nas gwiriwyd yr ysgol ar gyfer asesiadau TGAU Saesneg a modiwlau gwyddoniaeth a mathemateg yn dangos tuedd ar i fyny yng nghyfran y disgyblion sy'n ennill cymhwyster lefel 2 mewn asesiadau pwnc ar wahân neu fodiwlau o gymharu â'r data yn 2012. Mae'r data nas gwiriwyd hwn yn rhoi arwydd rhannol i'r ysgol o'r potensial ar gyfer perfformiad gwell yn 2013. Fodd bynnag, mae mwy o le i wella o hyd.

**Argymhelliad 2: Gwella safon sillafu ac atalnodi, ac ansawdd ysgrifennu estynedig disgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr arolygiad craidd, mae athrawon yn awr yn rhoi sylw cynyddol i wella medrau llythrennedd disgyblion. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion wedi gwneud gwelliannau sylweddol yng nghywirdeb eu sillafu a'u hatalnodi, yn ogystal â gwella ansawdd eu hysgrifennu estynedig. Mewn llawer o bynciau, mae disgyblion yn ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau ac arddulliau ac mae eu gwaith yn dangos dealltwriaeth gadarn o nodweddion gwahanol fathau o ysgrifennu. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu tasgau ysgrifenedig yn dda iawn, gydag amgyffrediad cadarn o'r cyd-destun, y diben a'r strwythur.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno ystod o strategaethau effeithiol er mwyn sicrhau bod yr holl adrannau yn cynnwys datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn flaenoriaeth yn eu cynlluniau datblygu a'u cynlluniau gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd rheolaidd i athrawon rannu arfer dda gydag adrannau eraill. Mae llawer o adrannau yn awr yn defnyddio deunyddiau dysgu llythrennedd gwerthfawr i helpu i wella ansawdd ysgrifennu disgyblion. Mae sesiynau effeithiol sy'n canolbwyntio ar lythrennedd yn ffurfio rhan o weithgareddau cofrestru. Caiff y strategaethau hyn eu hintegreiddio'n llwyddiannus mewn llawer o adrannau, ac maent wedi helpu i gefnogi gwelliannau yn sillafu ac atalnodi disgyblion, ac ansawdd eu hysgrifennu estynedig.

**Argymhelliad 3: Codi'r disgwyliadau a'r her mewn addysgu i gyfateb i'r arfer orau yn yr ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yr arolygiad craidd, mae disgwyliadau o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni wedi cynyddu.

I helpu i gynyddu disgwyliadau a her mewn addysgu i gyfateb i'r arfer orau, mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar y canlynol:

- gwella cynllunio gwersi i greu amgylchedd dysgu ysgogol;
- datblygu defnydd athrawon o dechnegau holi i brofi, dyfnhau ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion; ac
- athrawon yn defnyddio gwybodaeth asesu yn effeithiol i lywio cynllunio gwersi er mwyn cefnogi a herio'r ystod gallu cyfan.

Mewn llawer o wersi a arsylwyd yn ystod yr ymweliad monitro, roedd gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion. Roedd hyn yn amlwg yn lefel yr her yn y tasgau a

chan athrawon yn annog disgyblion i feini prawf llwyddo clir ac uchelgeisiol. Yn y gwersi hyn, roedd athrawon yn cynllunio gweithgareddau ysgogol i gymell disgyblion ac ennyn eu diddordeb er mwyn datblygu eu dysgu. Roeddent hefyd yn sicrhau bod y wers yn symud yn gyflym, ac roedd hyn yn helpu disgyblion i wneud cynnydd cyflym.

Fodd bynnag, mewn rhai gwersi, nid oedd disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel. Roedd hyn oherwydd:

- nid oedd athrawon yn holi digon o gwestiynau neu roedd eu cwestiynau wedi'u cyfyngu i gwestiynau caeedig ac nid oeddent yn cymryd sampl o'r ystod gallu llawn neu grwpiau penodol o ddisgyblion;
- roedd athrawon yn gwneud cyflwyniadau rhy hir, a oedd yn achosi i ddisgyblion fod yn rhy oddefol; ac
- roedd y wers yn symud yn rhy araf.

O ganlyniad i'r diffygion hyn, nid oedd disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn y gwersi hyn. Mae'r diffygion hyn yn debyg i'r rhai a nodwyd yn yr arolygiad craidd.

**Argymhelliad 4: Rhoi sylwadau penodol i ddisgyblion ynghylch sut gallant wella'u gwaith a defnyddio gwybodaeth asesu i gynllunio a chyflwyno gweithgareddau priodol sy'n bodloni anghenion yr holl ddysgwyr**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi rhoi ystod o weithgareddau ar waith yn llwyddiannus i roi sylwadau penodol ac o ansawdd gwell i ddisgyblion ynglŷn â sut gallant wella'u gwaith. O ganlyniad i rannu arfer dda a diwygio'r polisi adborth ysgol gyfan, caiff disgyblion gyngor o ansawdd uchel yn y rhan fwyaf o feysydd pwnc. Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig manwl a buddiol ar gynnydd ac maent yn amlinellu targedau clir a buddiol ar gyfer gwella. Yr hyn y mae athrawon yn ei ddefnyddio amlaf yw arweiniad cyffredin yr ysgol o ran 'beth aeth yn dda' (WWW) a 'hyd yn oed yn well os' (EBI). Mae hyn yn helpu disgyblion i wella'u gwaith a gwneud cynnydd.

Mae'r ysgol wedi rhoi blaenoriaeth uwch i fodloni anghenion a dyheadau pob disgybl trwy gynllunio gwersi'n ofalus. Mae llawer o athrawon yn defnyddio gwybodaeth asesu fel rhan o gynllunio medrus i drefnu gwersi gyda gweithgareddau heriol a ddewiswyd yn dda er mwyn datblygu dealltwriaeth disgyblion ar draws yr ystod gallu. Mae arweinwyr y cwricwlwm wedi cydweithio i rannu arfer dda a llunio ffurflenni i gefnogi hunanasesu ac asesu cyfoedion effeithiol mewn gwahanol bynciau. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu'n dda a dyfnhau eu dealltwriaeth o sut i wella. Mae uwch arweinwyr yn monitro ansawdd yr asesu a'r marcio trwy raglen craffu ar lyfrau, sydd hefyd wedi cyfrannu at gysondeb gwell.

## Argymhelliad 5: Gwella cysondeb hunanarfarnu a chynllunio gwella ar lefel rheolaeth ganol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi dechrau gwneud cynnydd wrth wella cysondeb hunanarfarnu a chynllunio gwella ar lefel rheolaeth ganol.

Mae gan yr ysgol raglen galendr o weithgareddau defnyddiol i helpu i sicrhau dull cyson o gasglu tystiolaeth ar gyfer hunanarfarnu. Mae'r holl adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn dilyn fformat cyffredin, ac mae bron pob un ohonynt yn rhoi dadansoddiad cynhwysfawr o ddata perfformiad. Mae bron pob un o'r adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn gwneud defnydd priodol o dystiolaeth uniongyrchol fel craffu ar lyfrau disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o'r adroddiadau hyn yn cynnwys amcanion addas ac maent yn hunanfeirniadol. Fodd bynnag, er Medi 2012, nid yw arweinwyr pwnc wedi arsylwi aelodau o'u hadran yn addysgu yn ffurfiol. Mae hyn yn golygu nad ydynt bob amser yn meddu ar ddealltwriaeth gywir o gryfderau athrawon unigol a'r meysydd i'w gwella er mwyn cefnogi datblygiad ymhellach.

Mae cynlluniau gwella adrannol yn dilyn fformat cyson. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn cynnwys targedau uchelgeisiol addas a strategaethau priodol i ysgogi gwelliannau angenrheidiol. Mae'r cynllunio hwn wedi helpu i arwain at gynnydd sylweddol mewn meysydd pwysig fel ansawdd marcio athrawon a llythrennedd disgyblion. Mae llawer o gynlluniau gwella adrannol yn cysylltu'n glir â meysydd i'w gwella a nodwyd mewn adroddiadau hunanarfarnu adrannol. Fodd bynnag, nid yw rhai ohonynt yn mynd i'r afael â'r holl feysydd gwella a nodwyd o ganlyniad i hunanarfarnu adrannol. Yn ychwanegol, nid yw rhai ohonynt yn cynllunio i fynd i'r afael â blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol yn ddigon da.

## Argymhelliad 6: Sicrhau bod disgyblion lywodraethwyr cyswllt

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi penodi disgyblion lywodraethwyr cyswllt. Mae'r disgyblion hyn eisoes wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr at gyfarfodydd y corff llywodraethol. Maent yn rhoi trosolwg clir i lywodraethwyr o safbwyntiau disgyblion am yr ysgol a'i dyfodol. Mae'r disgyblion lywodraethwyr cyswllt yn rhoi adborth defnyddiol a rheolaidd i'r cyngor ysgol hefyd.